GOV.UK

1. Home (https://www.gov.uk/)
2. Entering and staying in the UK (https://www.gov.uk/entering-staying-uk)
3. Rights of foreign nationals in the UK (https://www.gov.uk/entering-staying-uk/rights-foreign-nationals-uk)
4. Foreign nationals working in the UK (https://www.gov.uk/entering-staying-uk/Foreign-nationals-working-in-UK)

Cyfarwyddyd

# System Pwyntiau Mewnfudo'r DU: Cyflwyniad ar gyfer dinasyddion yr UE

Daeth y rhyddid i symud rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd i ben ar Ragfyr 31, 2020. Yna, ar Ionawr 1, 2021 gweithredwyd system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau gan y Deyrnas Unedig (DU), sydd yn blaenoriaethu sgiliau a thalent uwchben y lle mae person yn hanu.

From:
UK Visas and Immigration (https://www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration)
Published:
19 October 2020
Last updated:
31 December 2020,

## Cynnwys

- Trosolwg
- EU Settlement Scheme
- Ymgeisio drwy'r system pwyntiau mewnfudo
- Gweithio yn y DU
- Astudio yn y DU
- Documents

Print this page

## Trosolwg

Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd ar Ionawr 31, 2020.

Os nad oeddech yn byw yn y DU cyn Rhagfyr 31, 2020 a'ch bod heb hawliau o dan y Cytundeb Ymadael, bydd angen i chi ddiwallu gofynion penodol i gael gweithio neu astudio yn y DU o Ionawr 1, 2021. Bydd angen i chi fodloni gwiriadau perthnasol hefyd, gan gynnwys gwiriadau troseddol y DU. Gallwch barhau i ymweld â'r DU am hyd at 6 mis heb wneud cais am fisa ac fe gewch gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys twristiaeth, ymweld â theulu a ffrindiau, astudio byrdymor a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â busnes, fel digwyddiadau a chynadleddau. Gellir dod o hyd i'r rhestr lawn o weithgareddau a ganiateir i ymwelwyr (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-v-visitor-rules) ar GOV.UK.

Mae statws dinasyddion Iwerddon yn parhau i gael ei warchod fel rhan o drefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin neu'r Common Travel Area arrangements (https://www.gov.uk/government/publications/common-travel-area-guidance/common-travel-area-guidance). Felly, does dim angen caniatâd ar ddinasyddion Iwerddon i ddod i'r DU (heblaw am mewn nifer cyfyngedig iawn o amgylchiadau), ac o ganlyniad dydyn nhw ddim yn gymwys i wneud cais o dan y system pwyntiau ymfudo newydd.

Byddwch cystal â nodi bod 'Dinasyddion yr EU' y cyfeirir atynt yn y cyfarwyddyd hwn yn cynnwys dinasyddion yr UE, AEE a'r Swistir.

## EU Settlement Scheme

Os oeddech yn byw yn y DU cyn Rhagfyr 31, 2020, dylech chi a'ch teulu wneud cais i Gynllun Preswylio'r UE apply to the EU Settlement Scheme (https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/what-settled-and-presettled-status-means) er mwyn cael parhau i fyw yn y DU ar ôl Mehefin 30, 2021. Y dyddiad olaf i wneud cais yw Mehefin 30, 2021.

## Ymgeisio drwy'r system pwyntiau mewnfudo

Os ydych yn gymwys, dylech ddechrau gwneud eich cais yn GOV.UK. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r meini prawf perthnasol ac yn sgorio'r nifer o bwyntiau sydd eu hangen ar gyfer y fisa yr ydych yn ymgeisio amdani. Ceir cyfarwyddyd manwl ar gyfer pob trywydd yn GOV.UK.

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi wirio eich tystiolaeth adnabod. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio ffôn clyfar, drwy ap 'UK Immigration: ID Check', fel rhan o'r cais ar-lein. Bydd angen i'r sawl na all ddefnyddio ap 'UK Immigration: ID Check' fynd i Ganolfan Cais am Fisa (Visa Application Centre). Mae mwy o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r broses o wneud cais ar GOV.UK.

Bydd angen i chi dalu ffi i wneud y cais ac, os byddwch yn dod i'r DU am fwy na 6 mis, efallai y bydd angen i chi dalu'r Gordal Iechyd Mewnfudwr Immigration Health Surcharge (https://www.gov.uk/healthcare-immigration-application), fydd yn eich galluogi chi i gael mynediad at Wasanaeth Iechyd Gwladol y DU (y GIG neu'r NHS).

Mae'r amser prosesu ceisiadau (https://www.gov.uk/guidance/visa-decision-waiting-times-applications-outside-the-uk) yn amrywio yn ddibynnol ar y fisa yr ydych yn ceisio amdani a'r gwasanaeth sydd ar gael. Rhaid i chi wneud cais a derbyn cadarnhad eich bod wedi bod yn llwyddiannus cyn i chi deithio i'r DU.

## Gweithio yn y DU

## Fisa Gweithiwr Medrus (Skilled Worker Visa)

I fod yn gymwys i ddilyn trywydd y Gweithiwr Medrus, rhai i chi allu dangos:

- fod gyda chi gynnig o swydd gan noddwr a drwyddedir gan y Swyddfa Gartref ar y lefel gofynnol
- y cewch eich talu isafswm trothwy cyflog perthnasol gan eich noddwr (fel arfer £25,600 neu'r gyfradd berthnasol ar gyfer swydd benodol p'un bynnag sydd fwyaf)
- eich bod yn gallu siarad Saesneg ar lefel canolraddol B1 (ar Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer ieithoedd)

Ymgeisiwch am fisa Gweithiwr Medrus (https://www.gov.uk/skilled-worker-visa) ar GOV.UK.

## Gwaith Medrus: Fisa Iechyd a Gofal

Os ydych yn gweithio mewn swydd iechyd cymwys a'ch bod wedi cael cynnig swydd gan y GIG, sector gofal iechyd neu gyflogwyr a sefydliadau sydd yn cynnig gwasanaethau i'r GIG; yn gallu siarad Saesneg a diwallu anghenion taith lwybr Gweithwyr Medrus, gallwch wneud cais i gael y fisa Iechyd a Gofal er mwyn i chithau ddod i'r DU gyda'ch teulu.

Ceir mynediad llwybr cyflym, gyda ffioedd gwneud cais gostyngedig a chymorth un-pwrpas drwy gydol y broses ymgeisio. Os ydych yn gymwys i wneud cais am y Fisa Iechyd a Gofal, fe fyddwch hefyd wedi eich eithrio rhag gorfod talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo (https://www.gov.uk/healthcare-immigration-application). Bydd rhaid i weithwyr rheng flaen yn y sector iechyd a gofal nad sy'n gymwys i wneud cais ar gyfer y Fisa Iechyd a Gofal dalu'r Gordal Iechyd Mewnfudo a gallent elwa o gynllun ad-dalu (https://www.gov.uk/government/publications/immigration-health-surcharge-applying-for-a-refund/immigration-health-surcharge-guidance-for-reimbursement-2020) lle cânt eu had-dalu.

Ymgeisiwch am Fisa Iechyd a Gofal (https://www.gov.uk/tier-2-health-care-visa) ar GOV.UK.

## Talent Fyd-eang

Mae'r fisa Talent Fyd-eang (the Global Talent visa) yn caniatáu i'r mwyaf medrus ddod i'r DU heb gynnig o waith. Bydd y fisa hwn ar gael i arweinwyr cydnabyddedig, ac arweinwyr yfory ym meysydd gwyddoniaeth, dyniaethau, peirianneg, y celfyddydau (gan gynnwys ffilm, dylunio ffasiwn a phensaernïaeth) a thechnoleg ddigidol, gyda medrau unigol y bobl yma'n cyfoethogi gwybodaeth, economi a chymdeithas y DU. Bydd prif wyddonwyr ac ymchwilwyr yn elwa o broses cymeradwyo cynt fel rhan o gynllun llwybr cyflym STEM.

Ymgeisiwch am Fisa Talent Fyd-eang (https://www.gov.uk/global-talent) ar GOV.UK.

## Ffyrdd amgen o gael fisa gwaith a galwedigaethau arbenigol

Mae yna ystod o lwybrau fisa eraill ar gael i allu gweithio yn y DU, fel y fisas Dechrau Busnes a Dyfeisgarwch. Ceir llwybrau fisa hefyd ar gyfer swyddi arbenigol pellach eraill, gan gynnwys gweinidogion crefydd, pobl sy'n gwneud chwaraeon a phobl greadigol.

## Astudio yn y DU

## Taith Lwybr Myfyriwr

Er mwyn bod yn gymwys i ddilyn taith lwybr myfyriwr, rhai i chi arddangos:

- eich bod wedi cael cynnig lle ar gwrs gan noddwr Myfyrwyr achrededig sydd wedi ei drwyddedu gan y Swyddfa Gartref
- eich bod yn gallu siarad, ysgrifennu a deall Saesneg
- bod gyda chi ddigon o arian i gefnogi eich hun ac i dalu am eich cwrs
- eich bod yn wirioneddol yn bwriadu astudio yn y DU

Gallwch wneud cais am Fisa Myfyriwr (https://www.gov.uk/child-study-visa) ar GOV.UK.

Mae yna drywydd ar wahân Child Student route (https://www.gov.uk/student-visa) ar gyfer myfyrwyr sy'n blant rhwng 4-17 oed sy'n dymuno astudio mewn ysgol annibynnol.

## Fisa Ôl-radd (Graduate visa)

Os byddwch wedi cwblhau cwrs gradd yn llwyddiannus ar lefel israddedig neu'n uwch yn y DU, cewch geisio am fisa i Raddedigion i gael aros a gweithio, neu chwilio am waith, am uchafswm cyfnod o 2 flynedd (3 blynedd ar gyfer myfyrwyr PhD) ar ôl i chi orffen eich astudiaethau.

Bydd y fisa i Raddedigion yn agored yn ystod haf 2021 i fyfyrwyr rhyngwladol a gafodd eu noddi gan noddwr Myfyrwyr sy'n drwyddedig gan y Swyddfa Gartref ac sydd ganddi record faith o gydymffurfiaeth gyda gofynion mewnfudo Llywodraeth y DU.

## Documents

### The UK's points-based immigration system: an introduction for EU citizens (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/947984/Intro_guide_FINAL_WEB.pdf)

PDF, 518KB, 7 page

Efallai na fydd y ffeil hon yn addas ar gyfer defnyddwyr technoleg gynorthwyol

▶ Gwneud cais am fformat gwahanol.

### The UK's points-based immigration system: an introduction for EU workers (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/947985/Workers_guide_FINAL_WEB.pdf)

PDF, 936KB, 14 page

Efallai na fydd y ffeil hon yn addas ar gyfer defnyddwyr technoleg gynorthwyol

▶ Gwneud cais am fformat gwahanol.

### The UK's points-based immigration system: an introduction for EU students (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/961679/HO_PBIS_Guidance_Students_Final_Web.pdf)

PDF, 2.78MB, 9 page

Efallai na fydd y ffeil hon yn addas ar gyfer defnyddwyr technoleg gynorthwyol

▶ Gwneud cais am fformat gwahanol.

### The UK's points-based immigration system: information for EU visitors (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/947990/Visitors_guide__FINAL_WEB.pdf)

PDF, 275KB, 4 page

Efallai na fydd y ffeil hon yn addas ar gyfer defnyddwyr technoleg gynorthwyol

▶ Gwneud cais am fformat gwahanol.

### The UK's points-based immigration system: application guidance (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/941372/6.7031_HO_PBIS_Guidance_Re-Brand_Updates_Application_Final_2_.pdf)

PDF, 597KB, 6 page

Efallai na fydd y ffeil hon yn addas ar gyfer defnyddwyr technoleg gynorthwyol

▶ Gwneud cais am fformat gwahanol.

Published 19 October 2020
Last updated 31 December 2020 + show all updates

1. 31 December 2020
   Updated content and PDF guides to reflect that free movement between the UK and the European Union has ended.
2. 9 December 2020
   Added translation
3. 4 December 2020
   Added translation and application guidance.
4. 13 November 2020
   Added the following documents "The UK's points-based immigration system: an introduction for EU workers" and "The UK's points-based immigration system: an introduction for EU visitors".
5. 26 October 2020
   Updated to include information about Irish citizens, following changes in Immigration Rules.
6. 19 October 2020
   Added translation

Print this page

## Related content

- Frontier Worker permit (https://www.gov.uk/frontier-worker-permit)
- Visiting the UK as an EU, EEA or Swiss citizen (https://www.gov.uk/guidance/visiting-the-uk-as-an-eu-eea-or-swiss-citizen)
- Employing EU citizens in the UK (https://www.gov.uk/guidance/employing-eu-citizens-in-the-uk)
- Health and Care Worker visa (https://www.gov.uk/health-care-worker-visa)
- Studying in the UK: guidance for EU students (https://www.gov.uk/guidance/studying-in-the-uk-guidance-for-eu-students)

## Brexit

- Gwiriwch
- Newidiwch
- Ewch

Gwiriwch beth sydd angen i chi ei wneud

(https://www.gov.uk/transition.cy)

## Explore the topic

- Foreign nationals working in the UK (https://www.gov.uk/entering-staying-uk/Foreign-nationals-working-in-UK)
- Rights of EU and EEA citizens (https://www.gov.uk/entering-staying-uk/rights-eu-eea-citizens)
- Visas and entry clearance (https://www.gov.uk/entering-staying-uk/visas-entry-clearance)